HSCCLD358

# Hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant. Mae'n gofyn i chi weithio gyda theuluoedd i gefnogi plant i ddatblygu llythrennedd, rhifedd ac iaith. Mae'n gofyn i chi weithio gydag eraill yn y lleoliad i fonitro, gwerthuso a chefnogi llythrennedd, rhifedd ac iaith.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i nodi anghenion unigol plant o ran datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
2. cytuno ar strategaethau â theuluoedd ac eraill i gefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith unigol plant
3. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i greu mannau a phrofiadau dysgu ar y cyd sy'n cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
4. cynllunio a gweithredu strategaethau wedi'u targedu ar y cyd ag eraill i gefnogi grwpiau o blant i wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac iaith
5. dewis gwybodaeth berthnasol o fframweithiau blynyddoedd cynnar i arwain a chefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
6. darparu'r adnoddau a'r amgylcheddau sydd eu hangen i weithredu strategaethau ar gyfer cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
7. gweithio mewn partneriaeth i hybu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac iaith plant drwy fannau, profiadau a rhyngweithiadau diddorol ac ysgogol
8. defnyddio profiadau bob dydd a chwilfrydedd naturiol plant i annog archwilio a datblygiad mewn llythrennedd, rhifedd ac iaith
9. defnyddio arsylwadau a rhyngweithiadau i lywio'r gwaith cynllunio drwy nodi anghenion o ran llythrennedd, rhifedd ac iaith ac ymateb i'r diddordebau sy'n dod i'r amlwg ymysg y plant
10. defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n hybu ac yn ymestyn datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
11. addasu profiadau dysgu i gwrdd ag anghenion amrywiol plant
12. darparu cymorth personol sy'n adlewyrchu cynnydd yr unigolyn ac anghenion datblygiad plant
13. defnyddio amrywiaeth o ddulliau arsylwi ac asesu i olrhain datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
14. cynnwys plant yn y gwaith o lunio eu profiadau dysgu eu hunain, gan werthfawrogi eu lleisiau a'u dewisiadau
15. adnabod a chynnwys eraill i gefnogi a gwella datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
16. parchu a dathlu iaith y cartref, acen a thafodiaith plant er mwyn hybu cynhwysiant diwylliannol a chyfoethogi llythrennedd a dysgu iaith
17. meithrin dulliau cyfathrebu agored, croesawgar a pharhaus â theuluoedd i

annog gweithio mewn partneriaeth a sicrhau bod datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant yn cael ei gefnogi gartref ac yn y gweithle

18. darparu gwybodaeth glir a hygyrch i deuluoedd i'w grymuso i gefnogi plant i ddysgu llythrennedd, rhifedd ac iaith yn y cartref
19. cefnogi teuluoedd i gydnabod, dathlu ac adeiladu ar gryfderau a sgiliau llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
20. cefnogi teuluoedd i adnabod rôl chwarae a phrofiadau bob dydd o ran datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac iaith
21. adnabod a mynd i’r afael ag unrhyw heriau sy'n atal teuluoedd rhag cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
22. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i adolygu a gwerthuso profiadau llythrennedd, rhifedd ac iaith yn y gweithle
23. myfyrio a gwella dull y gweithle o gynnwys teuluoedd yn natblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
24. cwblhau'r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant
25. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd arferion a chyfnodau pontio o ran darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
2. cyfnodau datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith mewn plant
3. sgiliau allweddol a chysyniadau datblygiad rhifedd
4. cyfnodau dysgu cysyniadau rhifedd cynnar
5. sgiliau allweddol a chysyniadau llythrennedd ymddangosol
6. pwrpas fframweithiau cwricwlwm blynyddoedd cynnar o ran cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
9. sut mae sicrhau cydbwysedd rhwng profiadau sy’n cael eu harwain gan blant a rhai sy’n cael eu harwain gan oedolion i greu cyfleoedd dysgu ystyrlon
10. arwyddocâd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae fel sylfaen ar gyfer datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
11. sut mae defnyddio arsylwadau a rhyngweithiadau i lywio'r gwaith cynllunio ac addasu profiadau dysgu i blant unigol
12. sut mae addasu profiadau ar gyfer anghenion dysgu unigolion a grwpiau o blant
13. strategaethau ar gyfer creu profiadau dysgu hyblyg y gellir eu haddasu, gan ymateb i fomentau mewn bywyd go iawn a chwilfrydedd plant
14. sut mae creu amgylcheddau ysgogol a diddorol sy'n cefnogi cyfleoedd i archwilio, datrys problemau ac ymholi
15. y mathau o leoedd, profiadau a rhyngweithiadau sy’n cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith orau
16. arwyddocâd chwarae corfforol, seiliedig ar fyd natur, yn yr awyr agored o ran hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
17. sut mae cael gafael ar adnoddau cynaliadwy ac addasu amgylcheddau i gwrdd ag anghenion plant
18. sut mae integreiddio profiadau yn y byd go iawn, dyfeisiau ac adnoddau digidol, ac adnoddau penagored i gyfoethogi dysgu
19. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu datblygiad

llythrennedd, rhifedd ac iaith
20. sut mae cynllunio ar gyfer datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith mewn ffordd sy'n cefnogi rheoleiddio emosiynol
21. rôl teuluoedd ac eraill o ran cefnogi datblygiad plant a chreu cyfleoedd dysgu ar y cyd
22. dylanwad diwylliant a chefndir ar ddatblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith
23. y gwahaniaeth rhwng dysgu wedi'i bersonoli a dulliau dysgu gwahaniaethol
24. heriau penodol ar gyfer dysgu cynnar plant mewn lleoliadau amlieithog a dwyieithog
25. rôl hunanwerthusiad o ran gwella cynllunio ac ymarfer
26. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant
27. theorïau sy’n berthnasol i ddatblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith plant
28. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant
29. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant
30. sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant, a sut i fynd i'r afael â hyn
31. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD358

Hybu datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith ar gyfer dysgu cynnar plant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD358 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygiad llythrennedd, rhifedd ac iaith, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |